# Cân y Sŵ

**Cytgan:**
**Dewch 'da ni i'r sŵ -w-w**
**Wel am halibalŵ -ŵ -ŵ,**
**Dewch gyda ni, ie ti a fi**
**I'r sŵ, sŵ, sŵ!**

**Gwnewch le i'r eliffant mawr**
**A'i drwnc sy'n cyffwrdd y llawr,**
**A fyny fry, mae'r tsimpansî**
**Yn gwenu arnon ni nawr.**
**Y Rheino yw'r un cryfa',**
**Fflamingo pinc yw'r dela',**
**Ond y jiraff yw'r tala', wir!**
**Bois bach, dyna wddw hir!**

**Cytgan x1**
**Dewch 'da ni i'r sŵ -w-w**
**Wel am halibalŵ -ŵ -ŵ,**
**Dewch gyda ni, ie ti a fi**
**I'r sŵ, sŵ, sŵ!**

**Mae yna bengwin bach del -**
**Ei henw hi ydy Nel,**
**Sy'n bwyta pysgod ddydd a nos,**
**O, ma hi'n dderyn bach tlos.**
**Wel, dyma gasgliad anferth**
**O anifeiliaid prydferth.**
**Yn y sŵ daw pawb ynghyd,**
**Creaduriaid yr holl fyd!**

**Cytgan x1**
**Dewch 'da ni i'r sŵ -w-w**
**Wel am halibalŵ -ŵ -ŵ,**
**Dewch gyda ni, ie ti a fi**
**I'r sŵ, sŵ, sŵ!**

© 2020 S4C